

Ein Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd 2024-2026



Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	4
1. Cyflwyniad	5
2. Cyd-destun strategol	6
2.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	6
2.2 Cynllun Cyflenwi Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru	7
2.3 Sero Net	7
2.4 Yr Economi Sylfaenol.....	8
2.5 Yr Economi Gylchol	9
2.6 Bioamrywiaeth	9
3. Ein Llwyddiannau.....	11
4. Ble ydyn ni nawr?	13
4.1 Yr Argyfwng Hinsawdd a Sero Net Cymru.....	13
4.2 Rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru	13

5.	Ein Taith i Sero Net.....	14
5.1	Ein Hallyriadau	14
5.2	Cynnydd wrth roi ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio 2022-24 ar waith.....	15
5.3	Cynnydd wrth weithredu Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru	16
6.	Ein Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd.....	17
6.1	Sut y gwnaethom ddatblygu ein cynllun.....	17
6.2	Rheoli ein cynllun	18
6.3	Fformat ein cynllun	18
7.	Cynlluniau gweithredu ffrydiau gweithgarwch ar gyfer 2024-2026	20
7.1	Rheoli carbon	20
7.2	Adeiladau a'n hystâd.....	22
7.4	Caffael	26
7.5	Dulliau o gyflenwi ein gwasanaethau	28
	Atodiad 1	32

Crynodeb Gweithredol

Mae'n bosibl mai newid yn yr hinsawdd yw'r bygythiad byd-eang mwyaf difrifol yr ydym yn ei wynebu. Bydd ei ganlyniadau yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd sy'n hanfodol i gyflawni a chynnal iechyd da. Mae hyn unwaith eto wedi amlygu'r gyd-ddibyniaeth ddofn rhwng llesiant poblogaeth, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi cydnabod ei rôl wrth fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd. Adlewyrchir hyn yn strategaeth hirdymor ddiwygiedig y sefydliad.

Mae ein Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd ar gyfer 2024-2026 yn dilyn cynllun cyntaf y sefydliad ar gyfer 2022-2024. Mae'n amlinellu'r gwaith y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei wneud dros y ddwy flynedd nesaf i gyrraedd targed GIG Cymru o sero net erbyn 2030 a'n hamcan carbon negyddol erbyn 2035, fel y nodir yn ein Strategaeth Hirdymor.

Gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o ddatblygiad y cynllun cyntaf, mae'r fersiwn hon o'r Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd 2024-26 wedi'i datblygu'n fewnol, dan arweiniad Gweithgor Gweithredu Datgarboneiddio.

Oherwydd y gorgyffwrdd rhwng datgarboneiddio, yr economi sylfaenol a'r economi gylchol, bioamrywiaeth a'n rôl wrth roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith, mae'r cynllun newydd hwn hefyd yn cynnwys camau gweithredu sy'n hyrwyddo egwyddorion yr agendau cynaliadwyedd hyn.

Yn dilyn ymlaen o'n cynllun blaenorol, bydd y camau gweithredu yn ein cynllun newydd yn parhau i ganolbwyntio ar y pum maes ffrwd gweithgarwch a ganlyn:

❖ Rheoli Carbon
❖ Adeiladau a'n hystâd
❖ Trafnidiaeth a theithio
❖ Caffael
❖ Dulliau o gyflawni ein gwasanaethau

1. Cyflwyniad

Iechyd Cyhoeddus Cymru ydym ni - sef sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol Cymru. Ein pwrpas yw gweithio gyda'n gilydd ar gyfer Cymru Iachach. Rydym yn helpu pawb yng Nghymru i fyw bywydau hirach ac iachach.

Mae gennym [Strategaeth Hirdymor \(2023-35\)](#) sy'n amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer sicrhau dyfodol iachach i bobl yng Nghymru erbyn 2035. Rydym wedi ymrwmo i weithio tuag at Gymru lle mae pobl yn byw bywydau hirach ac iachach a lle mae gan bawb fynediad teg a chyfartal at y pethau sy'n arwain at iechyd a llesiant da.

Mae'r Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso yn strategaeth alluogi sy'n ein helpu i gyflawni ein Strategaeth Hirdymor.

Mae ein Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd yn ein galluogi i gyflawni ein Strategaeth Hirdymor ac mae'n manylu ar y camau y byddwn yn eu cymryd dros y ddwy flynedd nesaf i fod yn sefydliad carbon-negyddol (yn tynnu mwy o garbon deuocsid o'r atmosffer nag sy'n cael ei ryddhau gennym). Mae'r cynllun hwn yn adeiladu ar gynnydd o ran cyflawni ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio cyntaf 2022-24 a gymeradwywyd ym mis Ebrill 2022. Mae'n cynnwys y camau yr ydym yn eu cymryd ar draws y sefydliad i gefnogi agendâu'r economi sylfaenol a'r economi gylchol a chyfrannu at y nodau a amlinellir yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#). Rydym wedi integreiddio'r agendâu hyn o fewn y cynllun oherwydd y gorgyffwrdd sylweddol rhyngddynt ac i sicrhau bod gennym un cynllun sy'n dangos ein hymrwymiad i leihau ein hól troed carbon.



2. Cyd-destun strategol

2.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn golygu bod yn rhaid i Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill ymdrechu i sicrhau Cymru gynaliadwy. Mae hyn yn golygu meddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl Cymru, gyda'n gilydd a gyda'n cymunedau i atal problemau a chymryd agwedd fwy cydgyssylltiedig.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau i fod yn ganolog i'n helpu i weithio tuag at Gymru lle mae pobl yn byw bywydau hirach ac iachach a lle mae gan bawb fynediad teg a chyfartal at y pethau sy'n arwain at iechyd da a llesiant, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Fel sefydliad rydym wedi croesawu'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ac wrth wneud penderfyniadau rydym yn ystyried yr effaith y gallai ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i gymhwyso'r Pum Ffordd o Weithio drwy ddatblygu ein Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd:



Meddwl tymor hir

Nodi lle gallwn ychwanegu gwerth drwy gamau gweithredu sy'n cefnogi canlyniadau cadarnhaol yn y tymor hir, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.



Cynnwys

Cynnwys ac ymgysylltu â staff o bob rhan o'r sefydliad i helpu i ddatblygu'r cynllun ac ymgorffori safbwyntiau ein rhanddeiliaid.



Cydweithio

Cydweithio â phob rhan o'r sefydliad a gweithio gyda sefydliadau partner a'r gadwyn gyflenwi i leihau allyriadau carbon a nodi sut y gallwn helpu i gyflawni amcanion ein gilydd.



Integreiddio

Nodi sut y bydd amcanion y Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd yn cyfrannu at nodau llesiant lluosog. Ystyried sut mae'r cynllun yn cefnogi amcanion eraill a'n Strategaeth Hirdymor a sut y gallent effeithio ar amcanion sefydliadol a llesiant ei gilydd.



Atal

Canolbwyntio ar gamau ataliol a chefnogi eraill i wneud yr un peth, cefnogi system gofal sylfaenol a chymunedol gynaliadwy ac atal lefelau allyriadau rhag cynyddu i leihau ein heffaith ar newid yn yr hinsawdd a helpu i atal problemau iechyd yn y dyfodol.

Mae cysylltiad arwyddocaol rhwng effeithiau newid yn yr hinsawdd ac iechyd a llesiant pobl. Yn 2023, fe wnaethom nodi mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd y cyhoedd fel un o'r chwe

blaenoriaeth strategol yn ein Strategaeth Hirdymor. Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl allweddol i'w chwarae o ran lleihau ei ôl troed carbon ei hun, nid yn unig i gefnogi targed sero net GIG Cymru a chyflawni'r camau gweithredu perthnasol yng Nghynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru, ond hefyd i wneud ein cyfraniad at leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd.

2.2 Cynllun Cyflenwi Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru

Mae gan GIG Cymru ran sylweddol i'w chwarae wrth gyflawni datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus; wrth gynnal gwasanaeth iechyd diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel. Wedi'i gyhoeddi gan Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC) ym mis Mawrth 2021, mae Cynllun Cyflenwi Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru (2021-2030) yn nodi mentrau a thargedau allweddol i sicrhau gostyngiad uchelgeisiol ond cyraeddadwy mewn allyriadau carbon o weithrediadau GIG Cymru gan gynnwys:

- Adeiladau ac Ystadau
- Trafnidiaeth
- Caffael
- Agweddau at Ofal Iechyd

Mae'r cynllun cyflenwi yn nodi 46 o fentrau ar gyfer datgarboneiddio GIG Cymru. Mae un o'r prif ymrwymadau yn ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio, a fydd yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ac yr ymrwymir iddynt o fewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig bob dwy flynedd. Bydd Cynllun Cyflenwi Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru yn cael ei asesu a'i adolygu yn 2025 a 2030.

Targed Datgarboneiddio GIG Cymru	Allyriadau (tCO ₂ e)	Gostyngiad canrannol o 2018/2019	Cyfanswm yr arbedion cronol o fentrau fydd (tCO ₂ e)
2025	845,600	-16%	459,000
2030	661,500	-34%	1,982,500

2.3 Sero Net

Mae cyflawni Sero Net yn golygu taro cydbwysedd rhwng allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (GHG) sy'n cael eu rhyddhau i'r atmosffer a'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu tynnu drwy sinciau carbon naturiol a/neu wrthbwysu carbon. Er mwyn cyrraedd sero net, bydd yn rhaid lleihau/gwrthbwysu allyriadau nwyon tŷ gwydr o adeiladau, trafniadaeth, darparu gwasanaethau a chaffael yn unol â chamau gweithredu a nodir yng Nghynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru er mwyn cyflawni'r uchelgais i sector cyhoeddus Cymru fod yn sero net ar y cyd erbyn 2030, fel y nodwyd yn yr ail gyllideb garbon ym mis Hydref 2021.

Mae ein Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd wedi'i gyd-gynhyrchu. Mae'n ymgorffori adborth ac awgrymiadau a dderbyniwyd drwy ymgysylltu â staff a chynrychiolwyr ar draws y sefydliad. Mae'r Cynllun yn amlinellu nifer o gerrig milltir allweddol a nodwyd o fewn pum ffrwd gweithgarwch i gefnogi datgarboneiddio ein gweithrediadau:

- Rheoli Carbon
- Adeiladau, Cynllunio Ystadau a Defnydd Tir
- Trafnidiaeth a Theithio
- Caffael
- Dulliau o Gyflenwi ein Gwasanaethau

2.4 Yr Economi Sylfaenol

Cefndir

Mae gwaith yr economi sylfaenol yn ystyried sut yr ydym yn gwario arian yng Nghymru a sut y gallwn wneud gwell penderfyniadau o ran sut i'w wario. Mae GIG Cymru yn cyfrif am gyfran sylweddol o wariant cyhoeddus yng Nghymru. Rydym am sicrhau ein bod yn gwario'r arian hwn mewn ffordd a fydd o fudd i'n pobl a'n heconomi.

Mae rhaglen yr Economi Sylfaenol yn canolbwyntio ar:

- Y nwyddau neu wasanaethau uniongyrchol rydym yn eu prynu (e.e. bwyd i ysbytai)
- Y gweithlu rydym yn ei gyflogi'n uniongyrchol
- Sut mae lleoliad a chydleoliad ein gwasanaethau yn effeithio ar gymunedau a sut y gallant gael mynediad at wasanaethau

Mae'n edrych ar sut a ble y gallwn gaffael nwyddau a gwasanaethau a all helpu economi Cymru a chefnogi ein poblogaeth. Drwy wario ein cyllidebau yng Nghymru, byddwn yn cefnogi cwmnïau o Gymru sy'n darparu swyddi a hyfforddiant mewn cadwyn gyflenwi leol. Mae cadwyni cyflenwi lleol hefyd yn well i'n hamgylchedd ac yn gallu gwrthsefyll newidiadau byd-eang yn well.

Fel cyflogwr rydym am sicrhau bod pobl leol yn cael cyfleoedd i hyfforddi a dod o hyd i waith yn GIG Cymru a gofal cymdeithasol ar bob lefel. Bydd hyn o fudd pellach i'n cymunedau. Wrth ystyried y gwerth y gall ein gwariant ei ychwanegu at gymunedau, gallwn hefyd effeithio ar leoliad gwasanaethau a sut y gellir gosod gwasanaethau gwahanol gyda'i gilydd i'w gwneud yn fwy hygyrch. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid a chyflenwyr i gyflawni uchelgais rhaglen yr economi sylfaenol i flaenoriaethu gwario ein cyllidebau yng Nghymru.

Llywodraethu

Rydym wedi sefydlu Grŵp Goruchwylio'r Economi Sylfaenol sydd â'r dasg o gydlynu a datblygu cyfleoedd a gweithgareddau i ddatblygu'r Economi Sylfaenol yng Nghymru ymhellach. Mae hwn yn grŵp amlddisgyblaethol gyda chynrychiolaeth o bob rhan o'r sefydliad.

Cyflawniadau Hyd Yma

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cefnogi'r Economi Sylfaenol dros y ddwy flynedd diwethaf, gan gynnwys:

- Cynnwys yr Economi Sylfaenol fel thema ym mhob rhan o'n strategaeth a'n cynlluniau.
- Datblygu Dadansoddiad o Ôl Troed y GIG gyda Sefydliad Iechyd y Byd i lywio economi sylfaenol Cymru.
- Datblygu a lansio Cronfa Ddata ac Efelychwr Gwerth Cymdeithasol (SVDS) Iechyd y Cyhoedd.
- Cymryd rhan mewn nifer o fentrau cyflogaeth gan gynnwys Kickstart, Prentisiaethau, y Cynllun Gwarant Cyfweiliad.

- Datblygu ein hystâd a gwella lleoliadau gwasanaethau er budd y boblogaeth leol a'r economi.
- Gweithio gyda chydweithwyr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i ddatblygu ein hadroddiadau caffael ac i ddylanwadu ar benderfyniadau gwariant mewn perthynas â'r Economi Sylfaenol.

2.5 Yr Economi Gylchol


Mae'r economi gylchol yn ddewis arall i economïau llinol traddodiadol. Mewn economi linol, rydym yn cymryd adnoddau, yn gwneud cynhyrchion, yn eu defnyddio, ac yna'n eu taflu fel gwastraff. Mae'r dull hwn yn disbyddu deunyddiau crai cyfyngedig ac yn cynhyrchu llawer iawn o wastraff. Mewn cyferbyniad, nod yr economi gylchol yw creu system fwy cynaliadwy ac effeithlon gyda'r manteision canlynol:

- **Lleihau Gwastraff:** Trwy wneud y mwyaf o oes cynhyrchion a deunyddiau, mae'r economi gylchol yn lleihau gwastraff. Mae'n annog arferion fel atgyweirio, aildefnyddio ac ailgylchu, sy'n helpu i gadw adnoddau mewn cylchrediad yn hytrach na'u hanfon i safleoedd tirlenwi neu losgyddion.
- **Gostwng allyriadau CO2:** Gall strategaethau economi gylchol leihau allyriadau nwyon tŷ gwyr yn sylweddol. Er enghraifft, gallai defnydd effeithlon a chylchol o ddeunyddiau mewn diwydiannau allweddol (fel sment, dur, plastigau ac alwminiwm) dorri allyriadau byd-eang hyd at 40% erbyn 2050. Pan ddefnyddir dulliau cylchol yn y system fwyd, gallai'r effaith fod hyd yn oed yn fwy.
- **Optimeiddio Adnoddau:** Trwy ddylunio gwastraff allan a hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau, mae'r economi gylchol yn lleihau ein galw am ddeunyddiau crai. Mae'n annog datrysiadau arloesol fel ailgynllunio cynnyrch, rhannu platfformau, ac ail-weithgynhyrchu.
- **Twf Cynaliadwy:** Mae'r economi gylchol yn sicrhau twf cynaliadwy dros amser. Mae'n pwysleisio ailgylchu, ail-bwrpasu, a rhoi ail fywyd i wastraff fel cynhyrchion newydd. Mae'r dull hwn o fudd i'r amgylchedd a'r economi.

Trwy fabwysiadu egwyddorion economi gylchol, gallwn ddod yn sefydliad mwy cynaliadwy ac mae'n hanfodol ar gyfer arbed adnoddau, lleihau gwastraff, a lliniaru effaith amgylcheddol. Mae'n gam tuag at ddyfodol mwy gwydn a chynaliadwy.

2.6 Bioamrywiaeth

Mae cymunedau iach yn dibynnu ar ecosystemau iach. Mae'r ecosystemau'n darparu popeth sydd ei angen arnom i oroesi – o aer a dŵr glân i fwyd a meddyginiaethau – ac mae rhwydwaith rhyng-gysylltiedig o blanhigion ac anifeiliaid yn hanfodol i'w cadw i weithio.



Categoriâu ac enghreifftiau o wasanaethau ecosystem.

Graffeg wedi'i gymryd o Ymchwil y Senedd, [Papur Briffio Bioamrywiaeth 2021](#). Yn seiliedig ar [Aseiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU](#).

Fodd bynnag, mae bioamrywiaeth yn dirywio ar raddfa frawychus. Yn fyd-eang mae dros filiwn o rywogaethau dan fygythiad difrifol, ac yng Nghymru mae un o bob chwe rhywogaeth mewn perygl o ddiflannu. Mae cynefinoedd hefyd yn crebachu oherwydd newidiadau mewn defnydd tir, diffyg rheolaeth, lledaeniad rhywogaethau ymledol ac effaith newid yn yr hinsawdd.

Gallai effaith y golled hon ar wasanaethau ecosystem fod yn drychinebus. Mae'n bygwth diogelwch bwyd a bywoliaeth yn ogystal â'n hiechyd corfforol a meddyliol.

Mewn ymateb i hyn, datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng natur yn 2021 ac mae'r angen i fynd i'r afael â'r argyfwng natur wedi'i ymgorffori yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae Adran 6 o'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnherthedd ecosystemau' gan sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried mewn cynllunio busnes, polisiau, cynlluniau a phrosiectau.

Cynhelir adroddiadau Adran 6 bob tair blynedd. Maent yn rhoi cyfle inni adolygu a gwerthuso'r camau yr ydym yn eu cymryd i gefnogi bioamrywiaeth, a nodi lle'r ydym yn cael effaith andwyol fel y gallwn roi camau cadarnhaol ar waith tuag at leihau ein heffaith. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth i ni a fydd yn ein galluogi i adolygu a diweddarau ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth i sicrhau ei fod yn adlewyrchu blaenoriaethau a ffyrdd newydd o weithio.

Mae ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth presennol, a gyhoeddwyd yn 2019, yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a disgwylir i gynllun wedi'i ddiweddarau gael ei gyhoeddi yn haf 2024.

3. Ein Llwyddiannau

Rydym wedi cyflawni sawl prosiect dros y ddwy flynedd ddiwethaf i leihau ein heffaith amgylcheddol sy'n cyfrannu at agenda datgarboneiddio, economi gylchol ac economi sylfaenol y sefydliad. Mae crynodeb o'r llwyddiannau a'r cyflawniadau hyn wedi'u nodi isod:

Newid ein hystâd

Rydym wedi parhau i ad-drefnu'r ystâd, gan gefnogi staff i weithio'n wahanol yn unol â'n polisi Gweithio Sut mae'n Gweithio Orau. Mae hyn wedi lleihau ein hól troed carbon. Rydym yn rhyddhau 60 tonn CO₂e y flwyddyn. Yn ystod y prosiectau hyn mae egwyddorion economi gylchol wedi'u cymhwyso ac yn cynnwys rhoi dodrefn i gymunedau a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi. Rydym hefyd wedi moderneiddio ein swyddfa yn Wrecsam ac wedi sefydlu dau Hwb Sgrinio newydd, gan gynnal yr egwyddorion o ddod ag iechyd i'r stryd fawr a chefnogi cymunedau lleol. Mae cyfleusterau megis cawodydd a rheseli beiciau hefyd wedi'u gosod i gefnogi teithio llesol. Yn ogystal â hyn, enillodd y sefydliad [achrediad ISO 140001](#) ym mis Mai 2023 ar gyfer ein tri phrif safle.

Sefydlu teithio cynaliadwy

Ym mis Tachwedd 2023, disodlwyd ein Fflyd Sgrinio Ymlediad Aortaidd yn yr Abdomen (AAA) gan gerbydau hybrid a thrydan. Mae cynlluniau hefyd yn cael eu datblygu i adnewyddu'r fflyd bresennol o fewn Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW). Bwriedir i'r fflyd gael ei hadnewyddu dros y ddwy flynedd nesaf.

Rydym wedi cefnogi a galluogi staff i weithio gartref gan leihau'r angen i gymudo bob dydd. Anogir staff i ystyried yr effaith ar yr amgylchedd wrth benderfynu sut i deithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith. Mae'r cynllun beicio i'r gwaith yn cael ei hyrwyddo i staff ac rydym hefyd wedi cyflwyno hyrwyddwyr teithio iach.

Ym mis Rhagfyr 2022, fe wnaethom gyflawni ymrwymiadau [Siarter Teithio Iach Caerdydd](#) ac mae gwaith yn parhau i ddatblygu siarteri ar gyfer rhannau eraill o Gymru.

Galluogi ein staff i wneud dewisiadau cynaliadwy

Mae gwaith ein Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd wedi parhau i annog a chefnogi newid ymddygiad er budd iechyd a llesiant ein staff, partneriaid a'r gymuned ehangach. Rydym wedi datblygu Pecyn Cymorth Teithio Cynaliadwy fel rhan o'r fenter Gweithio Sut Mae'n Gweithio Orau. Mae arolwg i ddeall sut mae staff yn teithio yn ôl ac ymlaen o'r gwaith hefyd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i gefnogi staff i wneud dewisiadau teithio iachach a mwy cynaliadwy.

Mae'r Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd hefyd wedi sicrhau cyllid i fwrw ymlaen â phrosiect ymchwil i edrych ar leihau plastigion untro, ffrydiau gwastraff uchel, Cyfarpar Diogelu Personol ac allyriadau cysylltiedig o fewn ein labordai microbiolog. Bydd yr ymchwil hon yn llywio'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y ddwy flynedd nesaf.

Trwy weithio gyda Cynnal Cymru-Sustain Wales, rydym wedi datblygu Gwella Cynaliadwyedd i Dimau (SIFT): Gweithdy Amgylchedd Iach. Mae'r gweithdy rhithwir dwy awr hwn yn galluogi timau gweithle ac unigolion i nodi a lleihau eu heffeithiau amgylcheddol. Rydym wedi parhau i weithio tuag at ein targed o 20% o dimau'n defnyddio'r gweithdy bob blwyddyn a chefnogwyd hyn drwy dri gweithdy hyfforddi'r hwylusydd a gynhaliwyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023.

I gefnogi ein camau datgarboneiddio mewnol, rydym wedi creu rhwydwaith staff i gefnogi datblygu cynaliadwy. Mae ein rhwydwaith Eiriolwyr Gwyrdd wedi parhau i dyfu ac yn darparu sesiynau anffurfiol chwarterol amser cinio i alluogi trafodaeth, dysgu a gweithredu ar lefel tîm ac unigol. Rydym hefyd wedi

datblygu e-ganllawiau ac adnoddau amrywiol i gefnogi staff i ymgorffori ymddygiad cynaliadwy, i helpu i leihau eu hallyriadau yn y gwaith a gartref. Mae hyn yn cynnwys yr [e-ganllaw 'Byddwch y Newid – Gweithio Gartref a Gweithio Ystwyth Cynaliadwy'](#) a'r '[Her Nodau Llesiant](#)'.

Yr Economi Sylfaenol a'r Economi Gylchol

Sefydlwyd y grŵp yn 2023. Mae'r cyflawniadau allweddol yn cynnwys:

- Datblygu a rhannu gwybodaeth, adnoddau ac offer i helpu i adeiladu Economi Llesiant yng Nghymru gyda'r GIG yn sbardun ac yn Economi Sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys dechrau sefydlu a hyrwyddo dull Seiliedig ar Werth tuag at wariant cyllideb a blaenoriaethu buddsoddiad tuag at iechyd, llesiant a thegwch y boblogaeth.
- Wedi gweithio gyda Gwasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) i gynnal adolygiad data o gyflenwyr presennol Iechyd Cyhoeddus Cymru i sefydlu'r ardaloedd a'r Byrddau Iechyd y mae'r arian yn cael ei wario ynddynt yng Nghymru, gan alluogi dealltwriaeth bellach o sylfaen Cyflenwyr Cymru a meysydd ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.
- Mae'r [Pecyn Cymorth Trawma ac ACE \(TrACE\)](#) bellach yn cael ei gyflwyno i bob Coleg Addysg Bellach yng Nghymru a thrwy'r Byrddau Cynllunio Ardal ar draws yr holl wasanaethau camddefnyddio sylweddau cymunedol a chlinigol. Mae gwerthusiadau o'r gwaith yn y ddau sector wedi mesur effaith gweithredu'r pecyn cymorth ar y gweithlu a defnyddwyr gwasanaeth gyda newid cadarnhaol wedi'i nodi ym mhrofiad defnyddwyr ac iechyd a llesiant. Bydd y broses gyflwyno yn parhau yn 2024.

Cefnogi'r system

Fel 'hyrwyddwyr addysg', fe wnaethom wahodd staff o bob rhan o GIG Cymru i gymryd rhan mewn gweithdai 'Galwad i Weithredu' ar-lein yn 2022. Cynlluniwyd y gweithdai ar-lein hyn i helpu i nodi camau gweithredu i leihau ein heffaith ar Newid yn yr Hinsawdd er mwyn cefnogi'r newid i GIG Cymru iach a charbon isel. Rydym hefyd yn datblygu ein cynnig hyfforddi, sydd wedi cynnwys sesiynau Llythrennedd Carbon, gyda dros 100 o staff yn cymryd rhan yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r Hwb hefyd wedi cyhoeddi [ffeithlun](#) i gefnogi staff i gymryd camau i leihau eu hól troed carbon eu hunain a [ffilm](#) sy'n amlygu'r hyn y mae staff eisoes yn ei wneud i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

Lansiwyd [Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru](#) ym mis Mehefin 2022. Fe'i cynlluniwyd i gefnogi contractwyr gofal sylfaenol yng Nghymru (practis cyffredinol, fferyllfa gymunedol, optometreg gymunedol a gofal deintyddol sylfaenol) i roi camau lliniaru ac addasiadau ar waith sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd. Yn cynnwys dros 50 o gamau gweithredu clinigol ac anghlinigol, mae'r Cynllun yn helpu practisiau i ystyried sut y gallant fod yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol yn eu man gwaith, sut maent yn gweithio a sut maent yn dylanwadu ar eraill, yn enwedig cleifion a'r cyhoedd, o ran newid yn yr hinsawdd.

Rydym hefyd yn gweithio ar draws y system a chyda phartneriaid ledled Cymru a'r DU i ddarparu arweinyddiaeth a helpu GIG Cymru i fynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth penodol a nodwyd yng Nghynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys addysg drwy gynyddu'r wybodaeth ymhlith y gweithlu gofal sylfaenol am newid yn yr hinsawdd; gofal iechyd a rheoli meddyginiaethau drwy fynd i'r afael â meysydd allweddol o reoli meddyginiaethau, yn enwedig potensial cynhesu byd-eang uchel anadlwyr a thrwy fynd i'r afael â gwastraff fferyllol ac yn benodol archwilio cynlluniau gwastraff ailgylchu anadlwyr.

4. Ble ydyn ni nawr?

4.1 Yr Argyfwng Hinsawdd a Sero Net Cymru

Ym mis Hydref 2021, datganodd Sefydliad Iechyd y Byd mai newid yn yr hinsawdd yw'r bygythiad iechyd unigol mwyaf sy'n wynebu dynoliaeth, oherwydd y cynnydd mewn tymheredd byd-eang.

Mae'r ddaear eisoes wedi cynhesu 1.1°C uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol oherwydd gweithgaredd dynol. Mae angen gweithredu ar frys i gyfyngu ar y cynnydd yn nymheredd y byd i 1.5°C er mwyn atal niwed dinistriol i iechyd. Mae lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr trwy ddewisiadau gwell o ran trafndiaeth, bwyd ac ynni yn arwain at well iechyd, yn enwedig trwy lai o lygredd aer.

Mae gan Gymru'r amgylchedd a deddfwriaeth i gefnogi'r trawsnewid sydd ei angen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gwneud yn siŵr bod yr hinsawdd yn cael ei hystyried pan fydd penderfyniadau bob dydd yn cael eu gwneud. Mae'r deddfwriaeth hon sy'n arwain y byd yn gosod dyletswydd arnom i gefnogi'r saith nod llesiant a roddwyd ar waith gan y deddf.

Mae gennym hanes hir o waith ar newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd, y tu mewn a'r tu allan i'n sefydliad. Gwnaethom sefydlu ein Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd yn 2016 i helpu i roi gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith. Mae'r Hwb wedi helpu i ddatblygu ein hymagwedd at gynaliadwyedd a lleihau ein hallbwn carbon-deuocsid. Gyda'n rhanddeiliaid allweddol, rydym wedi datblygu [asesiad cynhwysfawr o'r effaith ar iechyd o newid yn yr hinsawdd yng Nghymru](#), a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023 i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a llunio polisiau ar addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Yn 2021, fe wnaethom gynnal adolygiad o adroddiad Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd Cymru (CCRA3). Roedd yr adroddiad hwn yn asesu 61 o risgiau a chyfleoedd yn sgil newid yn yr hinsawdd, ar draws sectorau fel iechyd, tai, yr amgylchedd naturiol, busnes a seilwaith, a risgiau o effeithiau rhyngwladol newid yn yr hinsawdd. Nododd yr adroddiad nifer sylweddol o risgiau ym maes iechyd y cyhoedd yr oedd angen gweithredu arnynt ar frys.

Ers 2021, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r system iechyd ehangach i ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Mae hyn wedi cynnwys gweithgarwch ar newid yn yr hinsawdd mewn rhaglenni presennol, er enghraifft, Cymru Iach ar Waith a gwaith yn Gwelliant Cymru, a datblygu rhaglenni gweithredu newydd megis Cynllun Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru. Rydym yn cydnabod y bydd lleihau ein hallyriadau carbon a gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn helpu i sicrhau gwelliannau uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a thegwch iechyd.

4.2 Rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru

Fel darparwr allweddol gwasanaethau'r GIG ledled Cymru, mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi gweithgareddau cynaliadwyedd. Rydym yn cysoni ein huchelgais ein hunain â blaenoriaethau a thargedau allweddol a nodir yng Nghynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru i sicrhau ein bod yn lleihau ein hallyriadau carbon er mwyn cyflawni allyriadau Sero Net. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i gydweithio â'n byrddau iechyd partner ac ymddiriedolaethau GIG a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC), i gyflawni ein Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd 2024-2026. Rydym yn cydnabod y gall Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd ddarparu rôl

gynggori i gefnogi'r gwaith ehangach o gyflawni a llywio datblygiad Cynllun Gweithredu Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru yn y dyfodol. Mae ein rôl fel galluogwr systemau hefyd yn cyfrannu at gynaliadwyedd GIG Cymru a gwasanaethau cyhoeddus fel y manylir yn [natganiad sefyllfa mis Mawrth 2024](#) ac mae'n cynnwys rhaglenni fel Gofal Sylfaenol Gwyrddach.

5. Ein Taith i Sero Net

5.1 Ein Hallyriadau

Mae'n ofynnol i lechyd Cyhoeddus Cymru gyflwyno ei allyriadau carbon fel rhan o broses adrodd Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru¹ Ar ôl cyflwyno data 2022/23 ym mis Medi 2023, mae'r tabl isod yn crynhoi manylion am allyriadau diweddaraf y sefydliad.

Tabl 1 Allyriadau mewn kt CO₂e

	2021-22	2022/23
Adeiladau	0.44	0.40
Teithio Busnes	0.18	0.28
Cymudo	Heb ei adrodd	Heb ei adrodd
Fflyd	0.18	0.28
Gweithio Gartref	0.61	0.50
Tir	Amherthnasol	Amherthnasol
Cadwyn Gyflenwi	30.21	15.62
Gwastraff	0.09	0.08
Cyfanswm	31.71	17.16

Ar adeg adrodd, nid yw data cymudo ar gael gan nad yw'r data'n cael eu casglu. Bydd dulliau o gasglu'r wybodaeth hon yn cael eu harchwilio ar gyfer adrodd yn y dyfodol. Nid yw data teithio busnes ychwaith yn cynnwys yr holl deithiau busnes ar hyn o bryd. Mae gwaith pellach ar y meysydd hyn yn cael ei gynllunio ar gyfer 2024/25 (gweler yr adran deithio). Nid yw lechyd Cyhoeddus Cymru yn berchen ar unrhyw dir nac yn ei reoli, felly nid yw'r maes adrodd hwn yn berthnasol.

Er bod y data'n dangos ein bod wedi lleihau ein hól troed carbon 45% yn ystod 2021/22, roedd gweithgarwch a gynyddodd ein hól troed carbon yn 2021/22 wedi'i ddylanwadu'n drwm gan ymateb pandemig Covid-19. Mae hyn yn arbennig o amlwg wrth edrych ar y gwariant cynyddol a arweiniodd at allyriadau cadwyn gyflenwi uwch o'i gymharu â 2022/23.

¹ <https://www.llyw.cymru/canllaw-sector-cyhoeddus-ar-gyfer-adrodd-ar-garbon-sero-net>

Mae'r data hefyd yn dangos bod allyriadau adeiladau a gwastraff wedi aros yn debyg ond mae allyriadau teithio busnes ac allyriadau fflyd wedi cynyddu 55%. Mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i fwy o staff yn teithio at ddibenion gwaith oherwydd llacio cyfyngiadau a'n gwasanaethau sgrinio'n dychwelyd i lefelau gweithgarwch cyn y pandemig. Oherwydd natur ein hystâd ledled Cymru, nid yw bob amser yn bosibl cael data cywir ac mewn rhai achosion mae amcangyfrifon wedi'u cynnwys. Mewn perthynas â gwastraff cyffredinol a gwastraff wedi'i ailgylchu, dim ond un safle sydd gennym lle gellir cynnwys data cywir, lle mae'r gwaith yn cael ei ddarparu gan Biffa a lle mae adroddiadau dargyfeirio o safleoedd tirlenwi ar gael. Ar gyfer safleoedd eraill mae hyn wedi'i amcangyfrif yn seiliedig ar gyfaint y gwastraff. Mae Stericycle (SRCL) yn darparu gwybodaeth gywir am bwysau ein holl wastraff clinigol. Mae gwybodaeth Pŵer, Nwy a Dŵr yn seiliedig ar ddefnydd gwirioneddol hyd at 2022/23, a ddarperir fel rhan o'n contractau ynni. Ar hyn o bryd mae gan lechyd Cyhoeddus Cymru un safle sy'n cynhyrchu trydan drwy solar ffotofoltaig.

Mae data gweithio gartref yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd ym mis Mehefin 2022, data cyfrif pennau a monitro parhaus o'r defnydd o'n hystâd. Mae nifer o ragdybiaethau wedi'u gwneud gan nad yw'r data'n gyflawn ac mae patrymau gwaith yn amrywio ar draws y sefydliad. Amcangyfrifir bod 77% o weithwyr cartref ar hyn o bryd yn gweithio 1-2 ddiwrnod yr wythnos o safle lechyd Cyhoeddus Cymru. Darparwyd data cadwyn gyflenwi gan ein Tîm Caffael.

Fel y gwelir yn y data uchod, y gadwyn gyflenwi yw'r ffynhonnell allyriadau fwyaf arwyddocaol, mae'n cyfrif am dros 90% o allyriadau. Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn dilyn dull rhagnodedig Llywodraeth Cymru o gyfrifo allyriadau cadwyni cyflenwi. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod allyriadau'r gadwyn gyflenwi yn ansicr iawn, gan eu bod yn seiliedig ar ddull asesu sgrinio ac mae angen gwella'r amcangyfrif hwn dros amser drwy ddatblygu dulliau mwy cywir.

Er ein bod wedi gweld gostyngiad mewn allyriadau carbon o 2021/22, bydd nifer o ffactorau wedi effeithio ar hyn a bydd yn cael ei effeithio ymhellach yn y dyfodol gan-

- Newidiadau i wariant afreolaidd, megis gwariant Covid-19.
- Twf sefydliadol
- Trosglwyddo gwasanaethau fel Gwelliant Cymru
- Datblygu methodolegau ar gyfer categorïau allyriadau na allwn eu cyfrifo ar hyn o bryd, megis ôl troed carbon staff sy'n cymudo.

O ganlyniad, mae'n debygol na fyddwn yn parhau i weld gostyngiad yn y dyfodol mewn allyriadau ar draws rhai meysydd megis teithio busnes neu ein fflyd ac wrth i ni wella ein prosesau casglu data a'n methodolegau, bydd y sefydliad mewn sefyllfa well o ran ein cynnydd i gyflawni'r targed sero net, fodd bynnag efallai y byddwn yn gweld mwy o adrodd ar allyriadau carbon.

5.2 Cynnydd wrth roi ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio 2022-24 ar waith

Mae ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio presennol ar gyfer 2022-24 yn cynnwys 75 o gamau gweithredu. Darparwyd diweddariadau cynnydd gan arweinwyr gweithredu, gan fabwysiadu'r un broses ag a sefydlwyd ar gyfer diweddaru'r cerrig milltir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Bydd nifer o'r camau gweithredu, er bod ganddynt ddyddiadau i'w cwblhau, yn parhau i gael eu cyflawni, mae rhai yn gamau gweithredu parhaus ac mae gan eraill ddyddiadau cyflwyno yn y dyfodol felly efallai nad yw'r gwaith wedi dechrau ond wedi'i nodi fel ar y trywydd iawn. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu fel rhan o ddatblygiad yr iteriad nesaf o'r cynllun.

Ar chwarter 3 2023/2024, mae 52% o'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ym mis Ebrill 2022 wedi'u cwblhau (cynnydd o 15%) o fis Awst 2023, mae 43% ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt neu'n gamau gweithredu parhaus a 5% (yr un faint â'r cyfnod adrodd diwethaf) ar ei hôl hi.

Mae camau gweithredu sydd ar ei hôl hi neu heb eu cwblhau wedi'u hailgynllunio a'u cynnwys yn y cynllun hwn lle bo'n berthnasol.

5.3 Cynnydd wrth weithredu Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru

Mae Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru wedi'i ddatblygu i ysgogi gostyngiad uchelgeisiol ond realistig mewn allyriadau carbon o weithrediadau GIG Cymru. Mae'r Cynllun Cyflenwi yn nodi 135 o gamau gweithredu ar draws 46 o fentrau ar gyfer datgarboneiddio GIG Cymru.

Oherwydd natur y sefydliad, nid yw pob un o'r camau gweithredu yn y cynllun cyflenwi yn berthnasol i lechyd Cyhoeddus Cymru ac rydym wedi'n heithrio rhag adrodd yn erbyn y rhain. Mae'n ofynnol i ni adrodd yn erbyn y Cynllun Cyflenwi bob chwarter gan ddarparu statws Coch Melyn Gwyrdd ac asesiad hyder cyflenwi yn erbyn y 58 o gamau gweithredu sy'n berthnasol i'r sefydliad.

Ar chwarter 3 2023/2024, mae 58 o gamau gweithredu, 36% o'r camau gweithredu yn y Cynllun Cyflenwi wedi'u cwblhau ar gyfer lechyd Cyhoeddus Cymru (cynnydd o 15% ers y cyfnod adrodd diwethaf), mae 50% ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt neu'n gamau gweithredu parhaus ac mae 13% ar ei hôl hi neu mewn perygl o fynd ar ei hôl hi (gostyngiad o 2% ers y chwarter diwethaf). Mae manylion y camau gweithredu sydd ar ei hôl hi wedi'u cynnwys isod. Mae camau gweithredu sydd ar ei hôl hi neu heb eu cwblhau wedi'u hailgynllunio a'u cynnwys yn y cynllun hwn lle bo'n berthnasol.

Dylid nodi bod llawer o'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyflenwi yn dibynnu ar argaeledd cyllid. Gan nad ein Cynllun Cyflenwi ni yw hwn, ychydig o ddylanwad sydd gennym o ran amserlenni a bod ar ei hôl hi o ran cyflawni. Byddwn yn parhau i weithio i gyflawni'r cam gweithredu yn unol â'r amserlenni a nodir yn ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio.

6. Ein Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd

6.1 Sut y gwnaethom ddatblygu ein cynllun

Mae ein Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd 2024-2026 wedi'i ddatblygu'n fewnol gan y Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio, wedi'i lywio gan waith parhaus ar ddatgarboneiddio, camau gweithredu a'r hyn a ddysgwyd o'r broses o ddatblygu a gweithredu ein cynllun presennol a chyfranogiad a chydweithio gan grwpiau a staff ar draws y sefydliad megis ein Grŵp Cydweithredol Datgarboneiddio, Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd, Eiriolwyr Gwyrdd a Grŵp yr Economi Sylfaenol. Rydym hefyd wedi defnyddio'r hyn a ddysgwyd gan gydweithwyr mewn byrddau iechyd a sefydliadau eraill sydd wedi helpu i lunio ein cynllun.

Rydym wedi ymrwmo i egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn sicrhau bod ein penderfyniadau'n ystyried yr effaith y gallai ei chael ar staff, ein gweithlu a phobl sy'n byw yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn ceisio cofleidio'r Pum Ffordd o Weithio yn llawn i'n helpu i weithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â'r heriau hirdymor sy'n ein hwynebu. Byddwn yn ymgorffori'r dull hwn yn y cam cynllunio a gweithredu ac yn ei ddefnyddio i'n helpu i werthuso effaith y cynllun.

Rydym yn cydnabod ein cyfraniadau tuag at gyflawni 7 nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac rydym yn bwriadu paratoi astudiaethau achos i ddangos sut mae ein gweithredoedd yn cefnogi pob un o'r nodau ac yn cymhwyso'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy.


Sut mae ein cynllun yn cyfrannu at y 7 nod llesiant?



6.2 Rheoli ein cynllun

Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Newid Hinsawdd yn 2022 i oruchwyllo'r holl gamau gweithredu sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio, yn ogystal â rheoli'r flaenoriaeth strategol newydd ar newid yn yr hinsawdd yn ein Strategaeth Hirdymor 2023-2035. Mae'r ffrwd waith datgarboneiddio wedi'i ffurfio ac, yn ystod 2023/24, mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi buddsoddi mewn Rheolwr Rhaglen i adolygu a datblygu cynnig ar gyfer trefniadau llywodraethu gwell a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2024. Mae hyn yn cynnwys nodi arweinydd ar gyfer pob un o'r pum ffrwd gweithgarwch a nodir yn y cynllun a datblygiad Cymuned Ymarfer Newid yn yr Hinsawdd lechyd Cyhoeddus Cymru a lanswyd ar 22 Ionawr 2024 i alluogi staff ar draws y sefydliad sy'n ymwneud â chyflawni ein hagenda newid yn yr hinsawdd ddod at ei gilydd a rhannu dysgu ac arferion gorau.

Mae'r diagram isod yn amlinellu'r strwythur llywodraethu ar gyfer datgarboneiddio yn lechyd Cyhoeddus Cymru.



6.3 Fformat ein cynllun

Mae ein cynllun wedi'i rannu'n bum ffrwd gweithgarwch wahanol ac mae'n nodi'r camau a gymerir i leihau ein hól troed carbon a hefyd y gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi ein hagendâu economi sylfaenol ac economi gylchol.

Mae'r tablau'n cynnwys statws dwyster lliw i helpu'r sefydliad i ddeall yr effaith y bydd y gwaith yn ei chael ar leihau ein hól troed carbon ac i gefnogi gwneud penderfyniadau a blaenoriaethu. I gyfrifo hyn, rydym wedi adolygu effaith bosibl pob cam gweithredu ar leihau allyriadau carbon ac wedi neilltuo arlliwiau o liw yn cynyddu o isel i uchel. Mae hwn yn asesiad goddrychol, y gobeithiwn ei fireinio dros amser i fesur effaith camau gweithredu yn fwy cywir. Rydym hefyd wedi nodi lle mae camau gweithredu'n gysylltiedig ag agendâu'r economi sylfaenol a'r economi gylchol ar gyfer lechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer pob un o'r camau gweithredu.

Y camau nesaf: 2024-2026 - Rydym yn adeiladu ar y gwaith a'r trefniadau llywodraethu a ddatblygwyd fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio cyntaf, ac yn dysgu o'r hyn sydd wedi gweithio hyd yma i leihau ein hól troed carbon, ac integreiddio egwyddorion economi gylchol ac economi sylfaenol yn ein cynlluniau.

Gwneud cynnydd: 2026 - Rydym ar y trywydd iawn i gyfrannu at, a chefnogi targed sero net cyfunol GIG Cymru. Mae'r effaith rydym yn ei chael ar yr amgylchedd yn cael ei hystyried ym mhopeth a wnawn ac mae methodolegau cyson ar gyfer cyfrifo ein hól troed carbon wedi'u hymgorffori yn ein penderfyniadau.

Cyflawni sero net: 2030 - Rydym wedi cyrraedd ein nod sero net ac rydym ar y trywydd iawn i fod yn sefydliad carbon negyddol erbyn 2035 fel y nodir yn Strategaeth Hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru.

7. Cynlluniau gweithredu ffrydiau gweithgarwch ar gyfer 2024-2026

7.1 Rheoli carbon

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymrwmo i gyflwyno prosesau rheoli carbon ac arferion gorau sy'n ffurfio sylfaen gadarn i alluogi rhoi ein Cynllun Gweithredu ar waith yn llwyddiannus. Mae arferion gorau o ran rheoli carbon yn mynd y tu hwnt i fonitro ac adrodd ar ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr i gynnwys datblygu a gweithredu cynlluniau gweithredu datgarboneiddio, gosod targedau, a chefnogi newid ymddygiad mewn perthynas â datgarboneiddio. Rydym yn cydnabod bod angen newid penodol yn ein prosesau i roi mwy o bwyslais ar ddatgarboneiddio ar draws ein gweithrediadau, wedi'i hwyluso drwy ymgorffori rheoli carbon yn ein cyfarwyddiaethau. Er mwyn galluogi hyn, mae angen inni gefnogi staff i ddeall effaith eu camau gweithredu ar yr amgylchedd a gwella sut rydym yn mesur ein hallyriadau carbon.

Cyflawni sero net 2030	<ul style="list-style-type: none">Rydym yn deall effaith popeth a wnawn ar yr amgylchedd
Gwneud cynnydd: 2026-2030	<ul style="list-style-type: none">Gallwn fesur ein hól troed carbon yn gywir ac mae'r dull gweithredu wedi'i ymwreiddio ym methodoleg rhaglenni a phrosiectau a'n proses gwneud penderfyniadau
Y camau nesaf ar gyfer 2024-2026	<ul style="list-style-type: none">Parhau i ddatblygu ein dull o feithrin gallu a hyfforddiant i gefnogi arferion iechyd y cyhoedd sy'n ymwybodol o'r hinsawddMwy o ymwybyddiaeth ymhlith staff o bwysigrwydd lleihau ein hól troed carbon, ac annog staff i fwrw ymlaen â mentrau a chamau gweithredu o fewn eu cyfarwyddiaethau a'u hisadrannau.

Cyfeirnod Cam Gweithredu	<i>Cam Gweithredu Allweddol:</i>	Dyddiad cyflawni'r cam gweithredu	Effaith bosibl ar leihau allyriadau carbon	Cysylltiadau â'r Economi Sylfaenol	Cysylltiadau â'r Economi Gylchol
CM01	Sefydlu proses a chynnal adolygiad chwarterol a chymharu data i egluro cynnydd a llywio datblygiad parhaus targedau mewnol interim yn unol â thargedau Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru.	02 Medi 2024	Isel		
CM02	Ymgorffori ein Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd ym mhroses adrodd Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) Iechyd Cyhoeddus Cymru.	31 Mai 2024	Isel		
CM03	Datblygu a chyhoeddi Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd 2026-28 wedi'i ddiweddarau.	31 Mawrth 2026	Canolig	✓	✓
CM04	Cytuno ar themâu datgarboneiddio i'w cyflwyno i'w datblygu yng Nghymuned Ymarfer Newid yn yr Hinsawdd Iechyd Cyhoeddus Cymru.	31 Mawrth 2026	Isel		✓
CM05	Parhau i ddatblygu ein dull o feithrin gallu a hyfforddiant i gefnogi arferion iechyd y cyhoedd sy'n ymwybodol o'r hinsawdd. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo modiwlau hyfforddi ar-lein presennol (ar gael ar ESR), hyfforddiant arddull llythrennedd carbon a phecyn cymorth Amgylchedd Iach yr Hwb.	31 Rhagfyr 2025	Isel		✓
CM06	Datblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer gweithgarwch y byddwn yn ei ddefnyddio i ymgorffori ein cynllun gweithredu, codi ymwybyddiaeth ledled y sefydliad ac i gefnogi camau gweithredu i leihau ein hól troed carbon.	31 Gorffennaf 2024	Isel		✓
CM07	Cyflwyno gweithdy Amgylchedd Iach i 100% o Gyfarwyddiaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru erbyn mis Mawrth 2026.	27 Chwefror 2026	Canolig		✓

CM08	Datblygu tudalennau datgarboneiddio i staff ar y rhyngrwyd a'r fewnrwyd, i hyrwyddo'r cynllun gweithredu a chyflawniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth leihau allyriadau carbon. Cynnwys dolenni i'r economi sylfaenol/economi gylchol, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a bioamrywiaeth ar dudalennau mewnwyd eraill.	15 TACHWEDD 2024	Isel	✓	✓
CM09	Datblygu dulliau gwell ac awtomataidd ar gyfer coladu data i ddarparu sefyllfa fwy cywir o ran ein hól troed carbon a'n llinell sylfaen, gan gynnwys allyriadau carbon gweithio gartref.	30 Ebrill 2025	Isel		
CM10	Gwreiddio mesur ôl troed carbon ac effeithiau'r economi sylfaenol yn ystod camau cynnar cynllunio prosiectau, rhaglenni ac achosion busnes yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.	22 Rhagfyr 2025	Canolig	✓	

7.2 Adeiladau a'n hystâd

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rheoli ein gwasanaethau ledled Cymru. Oherwydd yr amrywiaeth o wasanaethau rydym yn eu darparu ar gyfer ein cymunedau lleol, rydym yn gweithredu o amrywiaeth o adeiladau gwahanol gan gynnwys clinigau, labordai, a swyddfydd mewn ysbytai mwy a lleoliadau gofal iechyd. Mae'r mwyafrif o'r adeiladau hyn yn cael eu prydlesu gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau partner o fewn GIG Cymru. Mae ffynhonnell fwyaf arwyddocaol allyriadau nwyon tŷ gwyrdr o'n gweithgareddau ar y safle yn gysylltiedig â'r defnydd o drydan a nwy.

Cyflawni sero net: 2030	<ul style="list-style-type: none"> • Adeiladau a datblygiadau newydd yn cael eu hadeiladu i safon sero net • Lle bo modd, pob adeilad yn cael gwres carbon isel ac yn cynhyrchu eu trydan eu hunain • Rydym yn rhannu ein hadeiladau ar draws y sector cyhoeddus
Gwneud cynnydd: 2026-2030	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd adeiladau presennol yn hynod ynni-effeithlon neu bydd cynlluniau adnewyddu a gwres adnewyddadwy yn cael eu cyflwyno. • Rydym wedi gweithio gyda byrddau iechyd i leihau allyriadau carbon a chynyddu effeithlonrwydd ynni mewn ysbytai

	<ul style="list-style-type: none"> • Dim plastigion untro yn cael eu defnyddio yn lechyd Cyhoeddus Cymru
Y camau nesaf: 2024-2026	<ul style="list-style-type: none"> • Mae ein rhaglenni adeiladu yn cynnwys amcanion sero net gorfodol. • Rydym wedi lleihau ein gwastraff ac wedi gweithredu arferion gorau ailgylchu ar draws y sefydliad • Rydym yn deall allyriadau carbon staff sy'n gweithio gartref yn fwy cywir

Cyfeirnod Cam Gweithredu	<i>Cam Gweithredu Allweddol:</i>	Dyddiad cyflawni'r cam gweithredu	Effaith bosibl ar leihau allyriadau carbon	Cysylltiad â'r Economi Sylfaenol	Cysylltiad â'r Economi Gylchol
BE01	Cynnal ymarfer costio ar gyfer ein hystâd i lywio buddsoddiad mewn technoleg datgarboneiddio yn y dyfodol.	31 Mawrth 2025	Canolig		
BE02	Gweithio gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i archwilio cyfleoedd i ddefnyddio technolegau adnewyddadwy (e.e. Solar Ffotofoltäig) mewn adeiladau priodol ar draws ystâd lechyd Cyhoeddus Cymru	31 Mawrth 2026	Canolig		
BE03	Cynnal adolygiad o brosesau presennol y gweithle i bennu dulliau i gyfarwyddiaethau leihau gwastraff ar draws yr holl weithrediadau lle bo hynny'n ymarferol ac ymgorffori'r economi gylchol.	31 Mawrth 2025	Canolig		✓
BE04	Sefydlu proses archwilio i sicrhau bod holl safleoedd lechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i gydymffurfio â gofynion ailgylchu gwastraff ledled Cymru a chyrraedd targedau ailgylchu cenedlaethol.	31 Mawrth 2026	Isel		✓
BE05	Cyfathrebu parhaus i gefnogi gwahanu gwastraff yn gywir gan staff trwy ddarparu lle, biniau a chymhorthion gweledol.	30 Medi 2024	Isel		✓
BE06	Gweithio'n agos gyda chontractwyr gwastraff a landlordiaid adeiladu i wella data casglu gwastraff.	31 Mawrth 2025	Isel		✓

BE07	Adolygu'r defnydd o blastigau untro a rhoi dewisiadau amgen cynaliadwy ar waith lle bo'n ymarferol ar gyfer meysydd gwasanaeth unigol mewn lleoliadau anghlinigol.	31 Mawrth 2026	Canolig		✓
BE08	Ymchwilio i gyfleoedd ehangach ar gyfer cynlluniau gwrthbwysu carbon sydd o fudd i'r amgylchedd a chymunedau lleol (e.e. rhaglenni plannu coed).	31 Mawrth 2025	Canolig	✓	
BE09	Cynnal adolygiad a nodi meysydd i wella sut y defnyddir ynni o fewn adeiladau/safleoedd (e.e. lleihau oeri diangen yn yr haf a gwresogi yn y gaeaf mewn adeiladau swyddfa).	31 Mawrth 2025	Canolig		

7.3 Trafnidiaeth a Theithio

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod bod ganddo rôl bwysig i'w chwarae wrth ddatgarboneiddio ei fflydoedd cerbydau yn ogystal â chefnogi ein gweithwyr i wneud dewisiadau trafndiaeth iachach a mwy cynaliadwy. Bydd lleihau allyriadau egsôst o'n fflyd cerbydau yn helpu nid yn unig i leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwyr ond bydd hefyd yn cyfrannu at wella ansawdd aer yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae mwyafrif ein hallyriadau trafndiaeth (52.3%) yn deillio o deithio a gwblhawyd gan ein Fflyd Lwyd (cerbydau sy'n eiddo i staff ac sy'n cael eu gyrru at ddibenion busnes). Yn wahanol i'n fflydoedd sy'n eiddo i ni lle gallwn ymyrryd yn uniongyrchol i leihau allyriadau, mae lleihau allyriadau o'n Fflyd Lwyd yn ei gwneud yn ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru gefnogi ein staff i fabwysiadu dulliau trafndiaeth cynaliadwy a galluogi hyblygrwydd i weithio mewn gwahanol ffyrdd.

Cyflawni sero net: 2030	<ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi lleihau ein hól troed carbon ar gyfer trafndiaeth a theithio i lefelau a welwyd yn ystod y pandemig
Gwneud cynnydd: 2026-2030	<ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi cynyddu nifer y staff sy'n defnyddio dulliau trafndiaeth gynaliadwy ac wedi cynyddu'r ganran sy'n teithio'n llesol Cefnogi mwy o staff i weithio'n hyblyg, gan ddefnyddio manau a rennir a lleihau'r angen am ein hystâd
Y camau nesaf 2024-2026	<ul style="list-style-type: none"> Mae gennym fflyd gwbl drydanol/hybrid o gerbydau a seilwaith ategol ledled Cymru Rydym yn deall ôl troed carbon teithio busnes a chymudo ein staff

Cyfeirnod Cam Gweithredu	<i>Cam Gweithredu Allweddol:</i>	Dyddiad cyflawni'r cam gweithredu	Effaith bosibl ar leihau allyriadau carbon	Cysylltiad â'r Economi Sylfaenol	Cysylltiad â'r Economi Gylchol
T01	Cynnal adolygiad o ddarpariaeth gwefru cerbydau trydan ar gyfer cerbydau staff ac ymgysylltu â pherchnogion safleoedd i gynyddu'r ddarpariaeth seilwaith.	28 Chwefror 2025	Isel		
T02	Caffael cerbydau trydan batri a/neu gerbydau allyriadau isel iawn (hybrid) yn lle'r fflyd DESW.	31 Mawrth 2026	Uchel		
T03	Adolygu opsiynau ac ymarferoldeb ar gyfer gwefru beiciau trydan ar gyfer staff ac ymgysylltu â pherchnogion safleoedd i gynyddu'r ddarpariaeth.	28 Chwefror 2025	Isel		
T04	Datblygu polisi teithio lechyd Cyhoeddus Cymru i ymgorffori teithio cynaliadwy ac ystyried adborth o arolwg teithio staff 2023.	31 Mawrth 2025	Uchel		
T05	Defnyddio'r data a'r mewnwelediadau a gasglwyd fel rhan o'r arolwg teithio staff a grwpiau ffocws i ystyried ymyriadau posibl, archwilio cyfleoedd a hyrwyddo opsiynau i gefnogi ymddygiadau teithio iach a chynaliadwy, a hyrwyddo cymudo a theithio busnes gwyrddach.	23 Rhagfyr 2024	Canolig		
T06	Ehangu ymrwymadau Siarter Teithio Iach Caerdydd ar draws lechyd Cyhoeddus Cymru, gan gwmpasu pob safle ledled Cymru.	31 Mawrth 2026	Isel		
T07	Proses wedi'i datblygu i gasglu data allyriadau ar gyfer pob math o deithiau busnes staff (gan gynnwys trên, bws, fferi, awyr, car – un person yn unig, car – rhannu car ac ati)	30 Mehefin 2024	Isel		
T08	Casglu a choladu data cymudo staff yn flynyddol	31 Mawrth 2026	Isel		

7.4 Caffael

Mae caffael nwyddau a gwasanaethau drwy Wasanaethau Caffael PCGC yn cynrychioli effaith amgylcheddol anuniongyrchol fwyaf lechyd Cyhoeddus Cymru, ond mae hefyd yn gyfle i gefnogi datgarboneiddio traws-sector ar draws ein cadwyn gyflenwi. Bydd lechyd Cyhoeddus Cymru yn ceisio deall sut mae ein hymddygiad presennol yn ymwneud â chaffael yn cyfrannu at ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr a bydd yn nodi camau gweithredu i wella cynaliadwyedd ein nwyddau caffael. Mae lleihau'r nwyddau hyrwyddo plastig untro sy'n cael eu caffael ac adolygu'r gofyniad i gael copïau caled o gyhoeddiadau, yn ddwy enghraifft yn unig o sut y gallwn geisio lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr.

Cyflawni sero net: 2030	<ul style="list-style-type: none"> Mae gan lechyd Cyhoeddus Cymru gadwyn gyflenwi sydd bron yn sero net yng Nghymru
Gwneud cynnydd: 2026-2030	<ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi gweithio gyda'n cyflenwyr mwyaf i archwilio cyfleoedd i leihau effeithiau hinsawdd a'n hallyriadau carbon cysylltiedig Mae gofyn am ddewisiadau amgen di-garbon a defnyddio egwyddorion economi gylchol yn arfer arferol ac yn cael ei gefnogi ar draws y sefydliad
Y camau nesaf 2024-2026	<ul style="list-style-type: none"> Mae pob gweithgaredd caffael yn cynnwys isafswm pwysoliad o ran lleihau carbon Rydym wedi gweithio gyda PCGC i gael gwell dealltwriaeth o'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'n cadwyn gyflenwi ac wedi nodi meysydd sy'n cael yr effaith fwyaf

Cyfeirnod Cam Gweithredu	Cam Gweithredu Allweddol:	Dyddiad cyflawni'r cam gweithredu	Effaith bosibl ar leihau allyriadau carbon	Cysylltiad â'r Economi Sylfaenol	Cysylltiad â'r Economi Gylchol
P01	Ymgorffori cynaliadwyedd ym mhob manyleb sefydliadol, i sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys mewn gwerthusiadau caffael.	31 Ionawr 2025	Canolig		
T02	Creu canllawiau wedi'u diweddarau ar gyfer ysgrifennu manylebau a phwysoli elfennau cynaliadwyedd mewn tendrau. Ymgorffori Egwyddorion Economi Gylchol a'r Economi Sylfaenol ym mhob manyleb tendro.	31 Ionawr 2025	Canolig	✓	✓

T03	Cynnal ymarfer gyda rheolwyr contract i ddatblygu cynlluniau gweithredu yn dilyn adolygiad o nodweddion gwyrdd/economi sylfaenol/cyflogwyr cyflog byw ein pum prif gyflenwr.	11 Ebrill 2025	Canolig	✓	
T04	Gweithio gyda rheolwyr contract i gynnal gwerthusiad o'r ymarfer cynlluniau gweithredu ac ystyried ffyrdd y gallai lechyd Cyhoeddus Cymru ddylanwadu ar y meysydd hyn.	30 Mai 2025	Canolig	✓	
T05	Gweithio gyda thîm caffael PCGC i gynnal adolygiad o lechyd Cyhoeddus Cymru yn erbyn caffael gwasanaethau a letyir, er mwyn deall ôl troed carbon lechyd Cyhoeddus Cymru yn well.	30 Medi 2024	Isel		
P06	Sefydlu cynaliadwyedd/Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o fewn ein polisiau ac arferion caffael.	31 Mawrth 2026	Canolig	✓	
T07	Rhoi prosiect ar waith i leihau'r defnydd o bapur ymhellach a sicrhau bod lechyd Cyhoeddus Cymru yn ddi-bapur yn y dyfodol.	25 Hydref 2024	Canolig		✓
P08	Gweithredu argymhellion o adroddiad plastig untro yn ein Gwasanaethau Microbioleg a datblygu cynlluniau gweithredu i ehangu ar draws y gwasanaeth.	30 Medi 2025	Canolig		✓
T09	Adolygu gwariant gyda rheolwyr caffael i nodi meysydd gwariant allweddol y gellir canolbwyntio arnynt ar gyfer yr effeithiau mwyaf o ran lleihau allyriadau carbon.	31 Hydref 2025	Canolig		
P10	Datblygu a chyhoeddi Cod Ymarfer Caffael Cynaliadwy i gynorthwyo rhngweithio â'n cyflenwyr. I gynnwys asesiadau risg, cynnwys rheoli carbon mewn tendrau ac ati.	31 Mawrth 2025	Canolig	✓	✓
P11	Datblygu canllaw gwybodaeth i gyflenwyr ar ofynion lechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â chaffael ac ôl troed carbon.	27 Mehefin 2025	Isel		
P12	Adolygu ymddygiad caffael presennol yn y sefydliad a darparu ymgysylltiad a negeseuon defnyddiol i staff i gefnogi	31 Mawrth 2025	Isel		

	newid ymddygiad a hyrwyddo arferion gorau. Cynnwys hyrwyddo e-ganllaw 'Ni yw'r Newid – Caffael nad yw'n costio'r ddaear'. Creu astudiaeth achos ar arferion gorau caffael yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.				
P13	Cyfrannu at gwmpasu a datblygu rhaglen 'Iechyd y Cyhoedd yn yr Economi Llesiant' i gefnogi'r GIG fel Economi Sylfaenol a buddsoddi mewn ataliaeth ar gyfer y GIG, Cymru a Sefydliad Iechyd y Byd. O dan flaenoriaeth strategol System Iechyd a gofal cynaliadwy, AS4.2	30 Ebrill 2025	Isef	✓	

7.5 Dulliau o gyflenwi ein gwasanaethau

Mae llawer o dystiolaeth bod cysylltiad arwyddocaol rhwng effeithiau Newid yn yr Hinsawdd ac iechyd a llesiant pobl. Mae'r effeithiau sy'n gysylltiedig ag iechyd a llesiant sy'n deillio o Newid yn yr Hinsawdd yn amrywio'n fawr; yn effeithio ar lesiant corfforol, meddyliol ac ariannol y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Mae anghydraddoldebau economaidd ac iechyd presennol yn golygu bod risgiau iechyd a llesiant yn debygol o effeithio'n anghymesur ar y rhai ar incwm is. Mae angen i'n dull o ddarparu gwasanaethau gynnwys yr effeithiau hyn a sicrhau y gallwn barhau i ddarparu'n effeithiol ar gyfer ein defnyddwyr gwasanaeth.

Cyflawni sero net: 2030	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r holl wasanaethau a ddarparwn i'r cyhoedd yn garbon niwtral
Gwneud cynnydd: 2026-2030	<ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi lleihau canran y plastigau untro sy'n cael eu caffael a'u defnyddio yn ein Gwasanaethau Microbioleg a Sgrinio Rydym wedi lleihau'r gwastraff y mae ein gwasanaethau'n ei gynhyrchu ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru 50% Presgripsiynu Cymdeithasol yw'r norm ledled Cymru
Y camau nesaf: 2024-2026	<ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi trosglwyddo i Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) y gellir ei aildefnyddio ar gyfer gwasanaethau sgrinio a microbioleg, lle y bo'n briodol.

Cyfeirnod Cam Gweithredu	<i>Cam Gweithredu Allweddol:</i>	Dyddiad cyflawni'r cam gweithredu	Effaith bosibl ar leihau allyriadau carbon	Cysylltiad â'r Economi Sylfaenol	Cysylltiad â'r Economi Gylchol
A01	Cynnal adolygiad o weithrediadau darparu gwasanaeth presennol i nodi lle gellir newid neu optimeiddio gweithdrefnau a phrosesau i'w gwneud yn fwy cynaliadwy.	31 Mawrth 2025	Canolig		
A02	Gan weithio gyda'r grŵp Awdurdod Data Dylunio Digidol, cwblhau adolygiad o'r dull presennol o ddarparu ein gwasanaethau i nodi meysydd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a allai elwa'n sylweddol o ddigideiddio.	25 Ebrill 2025	Canolig		
A03	Cwblhau adolygiad mewnol ar draws Rhaglenni Sgrinio i nodi meysydd lle gellir cyflawni gostyngiadau mewn papur trwy ddigideiddio a System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS).	23 Rhagfyr 2024	Uchel		
A04	Pontio i PPE y gellir ei aildefnyddio ar gyfer gwasanaethau sgrinio a microbioleg, lle bo'n briodol.	31 Mawrth 2025	Canolig		✓
A05	Gweithio gyda phum prif gyflenwr Iechyd Cyhoeddus Cymru i nodi meysydd posibl lle gellir lleihau gwastraff.	11 Ebrill 2025	Canolig		
A06	Hyrwyddo'r defnydd o'r "Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol".	21 Mehefin 2024	Isel		
A07	Cynnal treialon o fewn ein Gwasanaethau Microbiolog i nodi lle gellir newid deunyddiau i ddewisiadau amgen mwy cynaliadwy. Canolbwyntio ar eitemau effaith carbon uchaf gan gynnwys sterileiddio dolen, bagiau sbesimen, poteli toddiannau a phlatiau agar.	28 Tachwedd 2025	Canolig		✓
A08	Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth newydd erbyn diwedd 2024.	22 Rhagfyr 2024	Isel		
A09	Cyhoeddi adroddiad ar Ddyletswydd Adran 6 Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau ar ddiwedd 2025.	31 December 2025	Isel		

Materion

Bydd y gofrestr materion yn amlinellu manylion yr holl faterion (problemau sydd eisoes wedi codi) a nodwyd sy'n effeithio'n negyddol ar waith y rhaglen ddatgarboneiddio a chynlluniau i'w datrys. Bydd adolygiad o'r gofrestr materion yn cael ei gynnal yng nghyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio a bydd materion a nodwyd fel rhai difrifol mewn perthynas ag effaith yn cael eu huwchgyfeirio i Fwrdd y Rhaglen Newid Hinsawdd i'w hadolygu.

Mater	Mesurau Lliniaru
Oherwydd natur ein hystâd ledled Cymru, mae opsiynau cyfyngedig i fuddsoddi mewn seilwaith datgarboneiddio ac i ddylanwadu ar gyflenwad ynni. Mae hyn oherwydd bod llawer o'r ystâd yn cael ei phrydlesu neu ei rheoli gan fyrddau iechyd.	<ul style="list-style-type: none"> Cynnal trafodaethau parhaus gyda landlordiaid. Parhau i fonitro'r ystâd a brydlesir a gofynion parhaus y sefydliad, er mwyn cynorthwyo â gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.
Anhawster wrth asesu rhai meysydd o allyriadau carbon lechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer monitro cynnydd yn barhaus yn erbyn targed sero net.	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio gydag adrannau perthnasol yn y sefydliad a'r tîm dadansoddi data/perfformiad i sefydlu gwaelodlin. Cynnal cysylltiadau i gael gwybodaeth am ddatblygiad methodolegau safonol ar gyfer cyfrifo allyriadau a lleihau allyriadau.

Risgiau

Bydd y gofrestr risgiau yn amlinellu manylion yr holl risgiau (materion posibl) a nodwyd mewn perthynas â gwaith y rhaglen ddatgarboneiddio a chynlluniau ar gyfer lliniaru. Bydd adolygiad o'r gofrestr risg yn cael ei gynnal yng nghyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio a bydd risgiau a nodir fel rhai difrifol mewn perthynas ag effaith a thebygolrwydd yn cael eu huwchgyfeirio i Fwrdd y Rhaglen Newid Hinsawdd i'w hadolygu.

Risg	Mesurau Lliniaru
Mae risg na fydd lechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd oherwydd capasiti annigonol ar draws y sefydliad.	<ul style="list-style-type: none"> Ystyried cyfleoedd i alinio rolau a phrosesau i gydlynu gweithgareddau, gwneud y mwyaf o ymdrechion a hyrwyddo cyflawniadau. Ymwreiddio yn y trefniadau llywodraethu presennol Nodi arweinwyr gweithredu allweddol presennol o fewn meysydd gwasanaeth ar draws lechyd Cyhoeddus Cymru Nodi cyfleoedd ar gyfer prosiectau partneriaeth gyda byrddau iechyd /ymddiriedolaethau eraill

	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd Rhaglen Newid Hinsawdd i fonitro cyflawniad a chefnogi'r gwaith o gyflawni camau gweithredu ar draws y sefydliad.
<p>Dim digon o ddealltwriaeth o'r goblygiadau ariannol i gyflawni'r Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Egluro goblygiadau ariannol yn ystod 2024-26; Bydd angen i Iechyd Cyhoeddus Cymru ymrwymo adnoddau a gwneud penderfyniadau dyrannu ariannol ar gyfer y blynyddoedd i ddod • Integreiddio camau gweithredu i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a Chynllunio Cyfarwyddiaethau/Maes Gwasanaeth Unigol • Manteisio ar gyfleoedd am gyllid allanol i gyflawni camau gweithredu, gan gynnwys Rhaglen Ariannu Cymru, Cynlluniau Buddsoddi i Arbed a chyllid Llywodraeth Cymru • Nodi cyfleoedd ar gyfer prosiectau partneriaeth gyda byrddau iechyd/ymdiriedolaethau eraill i gefnogi cyfleoedd ariannu • Achub ar gyfleoedd i weithio gyda Llywodraeth Cymru a gwasanaethau eraill sydd ar gael gan gynnwys Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a'r Ymdiriedolaeth Garbon
<p>Mae risg nad ydym yn deall y gwir sefyllfa sefydliadol mewn perthynas â chyflawni sero net gan na allwn gyfrifo'r allyriadau carbon ar gyfer ein holl weithgarwch. Gallai hyn olygu na fydd y sefydliad yn cyrraedd y targed sero net erbyn 2030.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Recriwtio Dadansoddwr Rheoli Perfformiad i helpu i fesur er mwyn llywio penderfyniadau priodol ar y meysydd ffocws mwyaf effeithiol. • Monitro yn agos cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu datgarboneiddio sefydliadol dwy flynedd. • Parhau i gyfathrebu â sefydliadau eraill y GIG i rannu gwybodaeth, syniadau a straeon llwyddiant.

Atodiad 1

Termau a Diffiniadau Allweddol

Defnyddir y termau allweddol canlynol yn y Cynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd hwn. Er gwybodaeth: mae diffiniad o bob term wedi'i ddarparu yn y tabl canlynol.

Term allweddol/Acronym	Diffiniad
Bioamrywiaeth	Ystyr bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth bywyd ar y ddaear – planhigion, anifeiliaid, ffyngau a micro-organebau. Nid yw bioamrywiaeth yn ymwneud â rhywogaethau'n unig, mae hefyd yn ymwneud â'r amrywiaeth o ecosystemau y maent yn byw ynddynt, sy'n bodoli ar ystod o raddfeydd, megis o ficro-gynefin pridd unigol i dirlun cyflawn.
Carbon Deuocsid Cyfwerth (CO ₂ e)	Uned fesur safonol o allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr a ddefnyddir i gymharu effeithiau cymharol gwahanol nwyon tŷ gwydr yn seiliedig ar eu potensial cynhesu byd-eang.
Yr Economi Gylchol	Mae'r economi gylchol yn fodel o gynhyrchu a defnyddio, sy'n cynnwys rhannu, prydlesu, aildefnyddio, atgyweirio, adnewyddu ac ailgylchu deunyddiau a chynhyrchion presennol cyhyd ag y bo modd. Drwy hynny, mae cylch bywyd cynhyrchion yn cael ei ymestyn.
Datgarboneiddio	Y broses o leihau yn gyntaf ac yna dileu, allyriadau nwyon tŷ gwydr a ryddhawyd i'r atmosffer o'n gweithrediadau.
Ecosystem	Mae ecosystem yn grŵp o organebau rhyng-gysylltiedig (anifeiliaid, planhigion a microbau) a'u hamgylchedd ffisegol a geir mewn ardal benodol – er enghraifft, mynyddoedd, afonydd neu goetiroedd.
Yr Economi Sylfaenol	Yr economi sylfaenol yw'r rhan o'n heconomi sy'n creu a dosbarthu'r nwyddau a'r gwasanaethau yr ydym yn dibynnu arnynt ar gyfer bywyd bob dydd.
Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr	Diffinnir nwyon Nwyon Tŷ Gwydr fel nwyon sy'n gallu amsugno pelydriad is-goch (gwres) o'r haul, gan gyfrannu at effaith nwyon tŷ gwydr y Ddaear.
Carbon Sero Net	Cydbwysedd rhwng allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu hallyrru i'r atmosffer a'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu tynnu drwy waredu a/neu wrthbwysu carbon.
Cynllun Cyflenwi Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru	Cynllun cyflenwi strategol a ddatblygwyd gan GIG Cymru yn cwmpasu'r cyfnod 2021-2030 sy'n nodi mentrau a thargedau allweddol i sicrhau gostyngiad uchelgeisiol ond cyraeddadwy mewn allyriadau carbon.
Cyfanswm Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (y flwyddyn) (tunelli CO ₂ e)	Cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr blynyddol sefydliad/endid cyn gwneud addasiadau ar gyfer atafaelu neu ddal nwyon tŷ gwydr, wedi'u mesur mewn tunelli o CO ₂ e.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Deddf Llywodraeth Cymru sy'n nodi saith nod llesiant sydd wedi'u cynllunio i wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru.
Allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r Ffynnon i'r Tanc (tunelli CO ₂ e)	Allyriadau o brosesu a mireinio tanwyddau ac ynni a ddefnyddir gan sefydliadau adrodd.